

Strategaeth Rheoli Gwybodaeth

Cyngor Bwrdeistref Sirol



www.bridgend.gov.uk

Trosolwg

Rheoli Gwybodaeth yw casglu a rheoli gwybodaeth o un ffynhonnell neu'n rhagor a dosbarthu'r wybodaeth honno i un gynulleidfa neu'n fwy. Mae rheolaeth y wybodaeth yn destun deddfwriaeth a rheoliadau ac mae gan y Cyngor ddyletswydd i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rheoli, ei storio a'i rhannu yn unol â:

- Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000
- Deddf Diogelu Data 2018
- Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (y Deyrnas Unedig)
- Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004

Mae rheoli gwybodaeth yn cwmpasu'r holl wybodaeth sy'n creu cof a gwybodaeth gorfforaethol y Cyngor – megis data Treth Gyngor, gohebiaeth â chwsmeriaid, data ariannol, cylchlythyrau i staff, negeseuon e-bost ac anfonebau gan gyflenwyr.

Datblygwyd y strategaeth hon i gefnogi nod y Cyngor o ddatblygu dull mwy grymus a chyson o wella'r ffordd y rheolwn ein gwybodaeth. Nod y strategaeth yw sicrhau tryloywder a chysondeb o ran y wybodaeth a drafodwn ar ran ein defnyddwyr gwasanaeth. Ei phwrpas yw sicrhau bod yr amrywiaeth helaeth o gofnodion y mae unigolion a thimau'r Cynghorau yn eu cynhyrchu, prosesu a rheoli yn cael eu trefnu'n effeithiol i wella gwneud penderfyniadau er lles rhanddeiliaid y Cyngor: er enghraifft, cwsmeriaid, staff, Aelodau a chyflenwyr.

Prif gymhellwr ar gyfer Rheoli Gwybodaeth gwell yw gwella ansawdd, cyfanrwydd a hygyrchedd cofnodion y cwsmeriaid; yn enwedig y rhai sy'n ofynnol i gefnogi ceisiadau'r cwsmeriaid am wasanaethau'r Cyngor a gwybodaeth mewn perthynas â nhw.

Cyd-destun Strategol

Rhaid i awdurdodau lleol fynd i'r afael â'u dull o reoli eu cofnodion a'u gwybodaeth. Yn ogystal â gofynion deddfwriaethol allanol, mae gan y Cyngor hefyd ei amcanion busnes ei hun sy'n mynnu dull mwy arloesol a chorfforaethol o reoli gwybodaeth.

WASPI

Mae Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI) yn darparu fframwaith i sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau sy'n ymwneud yn uniongyrchol ag iechyd, addysg, diogelwch, atal troseddau a lles cymdeithasol pobl yng Nghymru.

Yn benodol, mae a wnelo â sefydliadau megis awdurdodau lleol sy'n meddu ar wybodaeth am unigolion ac a allai ystyried ei bod hi'n briodol neu'n angenrheidiol rhannu'r wybodaeth honno gyda phobl eraill mewn ffordd gyfreithlon a deallus.

Mae'r cytundeb wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru fel y fframwaith rhannu gwybodaeth sengl ar gyfer Cymru y mae Pen-y-bont ar Ogwr wedi ymroi iddo.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.waspi.org.

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yw awdurdod annibynnol y DU a sefydlwyd i gynnal hawliau gwybodaeth er lles y cyhoedd, gan hyrwyddo didwylledd gan gyrff cyhoeddus a phreifatrwydd data i unigolion.

O ddiogelu data a chyfathrebiadau electronig i reoliadau rhyddid gwybodaeth ac amgylcheddol, sefydlwyd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth i gynnal hawliau gwybodaeth er lles y cyhoedd, gan hyrwyddo didwylledd gan gyrff cyhoeddus phreifatrwydd data i unigolion. Er mwyn cael gwybod mwy am ein cyfrifoldebau a'n rhwymedigaethau dan y ddeddfwriaeth y mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn ymdrin â hi, ewch i www.ico.gov.uk.

Deddf Diogelu Data

Mae angen i'r Cyngor gasglu a defnyddio rhai mathau o wybodaeth am bobl y mae'n delio â nhw. Mae'r rhain yn cynnwys gweithwyr cyfredol, hen weithwyr a darpar weithwyr, cyflenwyr, cleientiaid/cwsmeriaid. Yn ogystal, gallai'r gyfraith ofyn yn achlysurol am gasglu a defnyddio rhai mathau o wybodaeth i gydymffurfio â gofynion adrannau'r llywodraeth, er enghraifft data busnes.

Ymdrinnir â'r wybodaeth bersonol hon yn unol â'r egwyddorion y manylir arnynt yn Neddf Diogelu Data 2018. Gweler [gwefan y Cyngor](#) ar gyfer ein Polisi Diogelu Data a'n rhwymedigaethau statudol cysylltiedig mewn perthynas â'r ddeddfwriaeth.

Rhyddid Gwybodaeth

Mae'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn rhoi'r hawl i unrhyw un ofyn i awdurdod cyhoeddus yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, gan gynnwys Adrannau'r Llywodraeth, am unrhyw wybodaeth gofnodedig y cadwant. Mae'r Ddeddf hon yn rhoi mwy o fynediad i bob un ohonom at wybodaeth am sut y gwneir penderfyniadau mewn llywodraeth a sut caiff gwasanaethau cyhoeddus eu datblygu a'u cyflwyno.

Mae'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn gweithredu ochr yn ochr â'r Ddeddf Diogelu Data, sy'n galluogi pobl i gael mynediad i wybodaeth amdanynt eu hunain (e.e. cofnodion personél, neu wybodaeth a gedwir gan asiantaethau gwirio credyd) a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol, sy'n rhoi i bobl fynediad i wybodaeth am yr amgylchedd.

Mae nifer o Ddeddfau ychwanegol yn llywodraethu cyfrifoldeb y Cyngor mewn perthynas â datgeliad cyhoeddus agenda, cofnodion, adroddiadau a data cysylltiedig â chwsmeriaid y Cyngor. Mae'r rhain yn cynnwys Deddf Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) 1985 a Deddf Llywodraeth leol 1972.

Perchnogaeth Gwybodaeth

Mae angen dull cyson ar y Cyngor o droi at y storfeydd perchnogaeth gwybodaeth a ddefnyddir. Bydd rolau perchnogion gwybodaeth yn cael eu dynodi a'u hegluro ar draws pob Gwasanaeth.

Bydd y rôl y mae'r unigolion a'r timau hyn yn eu perfformio hefyd yn gyson o storfa i storfa, yn ogystal ag ar draws unedau gwasanaeth.

Mae angen i unrhyw strwythur llywodraethu perchnogaeth gwybodaeth sicrhau ei fod yn ddigon hyblyg i adlewyrchu anghenion y gwasanaeth gan ddefnyddio a phrosesu'r wybodaeth. Argymhelliad allweddol i weithredu'r Strategaeth Rheoli Gwybodaeth gyffredinol yw perfformio arfarniad o berchnogaeth gwybodaeth wrth i'r wybodaeth yn y storfeydd gael ei hastudio at ddibenion cadarnhau neu resymoli. Mae cyfrifoldebau'r perchnogion gwybodaeth ar prosesau maen nhw'n glynu wrthynt hefyd yn gofyn am ddiffiniad corfforaethol i sicrhau cysondeb.

Rolau a Chyfrifoldebau Data

Bydd yr holl rolau'n cael eu dynodi'n glir trwy ddisgrifiadau swyddi a chan gyfeirio at swyddogaethau'r swyddi y cyfeirir atynt yn y polisi hwn.

Rôl Diogelu Data

Mae gan y Cyngor Swyddog Diogelu Data statudol gyda chyfrifoldeb penodol am ddiogelu data. Gellir cysylltu â'r Swyddog yn uniongyrchol yn foi@bridgend.gov.uk.

Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth

Yr Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr yw'r Swyddog Monitro, sy'n cymryd perchnogaeth gyffredinol am Bolisi Risg Gwybodaeth y sefydliad.

Mae'r rôl yn ymddwyn fel pencampwr ar gyfer risg gwybodaeth. Rhaid i'r Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth ddeall sut gallai nodau busnes strategol y sefydliad gael eu heffeithio arnynt gan risgiau gwybodaeth, a sut gallai'r risgiau hynny gael eu rheoli.

Mae'r Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth yn gweithredu ac yn arwain Bwrdd Llywodraethu Gwybodaeth y Cyngor, ei asesiadau risg a phrosesau rheoli yn y sefydliad ac yn cynghori'r Bwrdd ar effeithiolrwydd rheoli risg gwybodaeth ar draws y sefydliad.

Perchennog Asedau Gwybodaeth

Y Perchennog Asedau Gwybodaeth ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr yw'r Rheolwr Grŵp, TGCh.

Rôl dan fandad yw'r Perchennog Asedau Gwybodaeth, ac mae'r unigolyn a benodir yn gyfrifol am sicrhau bod asedau gwybodaeth penodol yn cael eu trin a thrafod a'u rheoli'n briodol. Golyga hyn gwneud yn siŵr bod asedau gwybodaeth yn cael eu diogelu'n gywir a bod eu gwerth i'r Cyngor yn cael eu manteisio'n llawn arnynt.

Hwyluswyr y Protocol Rhannu Gwybodaeth

Mae fframwaith WASPI (gweler yn flaenorol) yn argymhell penodi Hwylusydd Protocol Rhannu Gwybodaeth cymeradwy i ddatblygu pob Protocol Rhannu Gwybodaeth newydd. Eu rôl fydd darparu cyngor ac arweiniad ar hyd y broses ddatblygu.

Mae pob Hwylusydd Protocol Rhannu Gwybodaeth wedi'u hyfforddi'n briodol mewn datblygu Protocolau Rhannu Gwybodaeth yn fframwaith WASPI a byddant yn gallu darparu gwybodaeth gefndir mewn perthynas â WASPI i'r sefydliadau partner. Mae gan bob Hwylusydd Protocol Rhannu Gwybodaeth ddealltwriaeth dda o ddeddfwriaeth gysylltiedig â rhannu gwybodaeth.

Cydlynwyr Protocol Rhannu Gwybodaeth

Mae angen i Gydlynwyr Protocol Rhannu Gwybodaeth gael ei ddynodi i ddatblygu pob Protocol Rhannu Gwybodaeth newydd. Bydd yr unigolyn hwn yn ymgymryd ag ymchwil gychwynol o ran a oes angen = Protocol Rhannu Gwybodaeth, ac os oes, yna rheolir broses ddatblygu trwy ddynodi i ddechrau, yr asiantaethau partner sydd ynghlwm a threfnu'r cyfarfodydd.

Dim ond un Cydlynwyr Protocol Rhannu Gwybodaeth sydd ei angen at ei gilydd ar gyfer pob datblygiad fodd bynnag, lle mae nifer fawr o sefydliadau ynghlwm wrth rannu gwybodaeth, hwyrach fod mwy nag un person yn cynorthwyo gyda'r gwaith.

Gellir cysylltu â Thîm Cefnogi WASPI trwy'r wefan. www.waspi.org.

Perchnogion a Gweinyddwyr y System:

Mae'r Tîm Systemau yn yr Uned Gwasanaeth TGCh yn darparu cefnogaeth i gwsmeriaid ar gyfer yr holl feddalwedd a systemau cyfrifiadurol. Mae gan bob system Berchennog System ymroddedig, eu rôl yw datblygu a chynnal y feddalwedd ar ran yr uned wasanaeth. Mae gan yr uned wasanaeth sy'n defnyddio'r feddalwedd rôl Gweinyddwyr hefyd sy'n ymddwyn fel cynrychiolydd ar ran y gwasanaeth.

Maen nhw'n gyfrifol am rôl y Perchnogion Asedau Gwybodaeth a rhaid iddynt reoli a monitro'n weithgar y cylch bywyd gwybodaeth cyfan o greu dogfennau i ddileu.

Mae Penaethiaid Gwasanaeth a Rheolwyr Grŵp yn gyfrifol am sicrhau bod eu staff yn cydymffurfio â'r holl bolisiau a gweithdrefnau sy'n ymwneud â rheoli gwybodaeth ar hyd eu cylch bywyd ac yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau fel y gosodwyd yn y polisiau hyn.

Adolygiadau Cyfnodol a Chydymffurfiaeth Barhaus

Mae storio, cadw a gwaredu gwybodaeth yn destun adolygiadau cyfnodol, yn ogystal ag ymarferion archwilio rheolaidd ac asesiadau risg i sicrhau cydymffurfiaeth a rheoli gwybodaeth yn ddiogel.

Argymhellir bod y staff yn cynnal eu hasesiadau risg cyfnodol ac adolygiadau o weithdrefnau ar lefel gwasanaeth eu hunain. Bydd Archwilio Mewnol yn cefnogi gwasanaethau gyda chydymffurfiaeth barhaus.

Dylai llwybrau archwilio gynnwys digon o wybodaeth i ddangos yr holl weithgareddau hanesyddol angenrheidiol yn ymwneud â'r system a'r data a storiwyd.

Bydd angen i'r llwybrau archwilio dystio dilysrwydd dal a storio gwybodaeth, gan gynnwys unrhyw newidiadau iddi.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r Swyddog Diogelu Data neu'r Prif Archwilydd Mewnol.

Codau Ymarfer a Pholisïau

Bwriedir i'r Codau Ymarfer gael eu defnyddio ar y cyd â deddfwriaeth gyfredol, gan gynnwys y Ddeddf Diogelu Data, Rhyddid Gwybodaeth yn ogystal â deddfwriaeth eilaidd (fel Rheoliadau) ac arweiniad a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Cyfrifoldeb y staff sydd ynghlwm mewn rheoli a rhannu gwybodaeth yw ymglyfarwyddo â'r ffynonellau hyn a gofyn am gymorth gan yr Adran Gyfreithiol pan fydd angen.

Mae'r holl Bolisïau a Chodau Ymarfer a restrwyd ar gael ar y fewnwyd ac yn y ddolen ganlynol:

<http://www.bridgenders.net/legal/Pages/Data%20Protection%20Introduction.aspx>

Diogelu Data

Gellir dod o hyd i'r Polisi Diogelu Data ar y fewnwyd.

Mae Deddf Diogelu Data 2018 yn darparu ar gyfer rheoleiddio'r gwaith o brosesu gwybodaeth yn ymwneud ag unigolion, gan gynnwys caffael, dal, defnyddio neu ddatgelu'r wybodaeth honno.

Toriadau Data

Datblygwyd y Cod Ymarfer hwn i gynorthwyo'r Cyngor i ymateb yn effeithiol i doriadau data. Mae'r Cyngor yn dal symiau sylweddol o ddata categori personol ac arbennig (sensitif) a rhaid wrth ofal i osgoi torri data.

Cadw a Gwaredu ar Ddogfennau

Gellir dod o hyd i'r Polisi Cadw Data ar y fewnwyd.

Mae'r Polisi hwn yn seiliedig ar y Retention Guidelines for Local Authorities a luniwyd gan Grŵp Llywodraeth Leol The Records Management Society of Great Britain. Mae'r canllawiau dinistrio ar gyfer copïau papur yn seiliedig ar Gynllun Dosbarthu'r Llywodraeth Leol.

Mae atodlenni cadw a gwaredu wedi'u rhestru ar gyfer pob math a fformat o ddogfen, yn dibynnu ar y cynnwys.

Datgelu Categoriâu Data Personol Arbennig – Aelodau Etholedig

Pwrpas y Polisi hwn yw amlinellu'r datgeliad derbynol a defnyddio categorïau arbennig o ddata personol gan bob Cynghorydd yn y Fwrdeistref Sirol. Dan y ddeddfwriaeth diogelu data, rhaid i'r Cyngor ystyried nifer o agweddau wrth benderfynu p'un ai i ddatgelu categorïau data personol arbennig (data sensitif) i Gynghorwyr. Bydd y rhain yn cael eu dynodi yn y polisi hwn.